**CAIS AM GANIATÂD I ADAEL DEUNYDDIAU ADEILADU AR Y BRIFFORDD GYHOEDDUS**
**Deddf Priffyrdd 1980 Adran 171**

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Enw'r Ymgeisydd: ……………………………………………………………………………………..
Cyfeiriad:…..……………………………………………………………………………………………..
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………… Cod Post: ……………………..
Rhif Ffôn yn ystod y dydd:…………………………....... E- bost:……………………...................

Hoffwn wneud cais am ganiatâd i adael deunyddiau adeiladu ar y y brifford gyhoeddus yn:

Cyfeiriad y safle:………………………………………………………………………………………....
………………………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………….Cod Post:…………………………………..

Lleoliad y deunyddiau oni osodir hwy y tu allan i gyfeiriad y safle:
……………………………………..
……………………………………………………………………………………………………..

*Nodwch yr hyn sy'n berthnasol

Ar gyfer y safle hwn, nodwch (mewn metrau):
Lled y llwybr troed: …………………..m
Lled y llain (os oes un): …………….....m
Lled y ffordd: …………………..m
A yw ar y llwybr bws? Ydi/Nac ydi *
A yw'n stryd i gerddwyr? Ydi /Nac ydi *

Nodwch fesuriadau'r Deunyddiad Adeiladu yr ydych am eu gadael (mewn metrau):
Hyd: ……………...m
Lled: ……………...m
Uchder: ……………...m

Nodwch y mesurau diogelwch ar gyfer traffig a cherddwyr (conau, bariau ayyb):

| |
|---|
| Nodwch y rhesymau pam na all y deunyddiau gael eu gadael ar dir preifat: |

| |
|---|
| Bydd y deunyddiau ar y briffordd gyhoeddus o: ………………….. hyd: …………………… yn gynwysiedig.<br><br>**Nodwch y gellir cyhoeddi trwydded am uchafswm o 28 diwrnod yn unig.** |

| |
|---|
| Atodwch y canlynol gyda'r cais hwn:<br><br>Copi o'ch Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. (Mae angen lleiafswm o £5 miliwn parthed unrhyw ddigwyddiad er mwyn bod yn atebol am unrhyw risgiau trydydd parti.)<br><br>Siec am y swm cywir ac yn daladwy i 'Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.' |

| |
|---|
| Rwyf wedi darllen ac rwy'n cytuno i gydymffurfio â'r amodau a nodir.<br>Enw (print bras)……………………………………………………………….. …………….<br>Arwyddwyd…………………………………………………… Dyddiad……………………………... |

**Dychwelwch eich ffurflen gais a'ch taliad i'ch Swyddfa Priffyrdd lleol.**
**Rhestr Wirio:**

- *A ydych wedi darllen y nodiadau canllaw ac amodau'r drwydded?*
- *A ydych wedi cwblhau pob adran?*
- *A ydych wedi arwyddo'r ffurflen gais?*
- *A ydych wedi darparu'r tâl cywir?*
- *A ydych wedi darparu copi o'r rhif caniatâd cynllunio neu dystiolaeth nad oes angen caniatâd cynllunio?*
- *A ydych wedi darparu copi o'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus?*

## Swyddfa Priffyrdd Lleol: Map o'r Lleoliad a Manylion Cyswllt

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

### Caniatâd i Adael Deunyddiau Adeiladu ar y Briffordd Gyhoeddus
### Deddf Priffyrdd 1980 Adran 171

### Amodau a Thelerau


1. Ni ddylai deunyddiau gael eu gosod mewn man sy'n rhwystro mynediad i safleoedd eraill, atal dŵr yr arwyneb rhag draenio na rhwystro mynediad i hydrantau tân, gwteri draenio'r priffyrdd, tyllau archwilio nac unrhyw offer

defynddiol eraill er lles y cyhoedd. Ni ddylid gosod unrhywbeth mewn lleoliad allai fynd yn groes i unrhyw Orchymyn Rheoliad Traffig.

2. Dylai deunyddiau gael eu lleoli a'u storio'n ddiogel a pheidio creu perygl na niwsans i ddefnyddwyr eraill y briffordd. Dylai'r deunyddiau gael eu gosod mewn man lle gellir eu gweld yn glir gan draffig sy'n agosáu o bob cyfeiriad ac o bellter o ddim llai na 75m. Ni ddylid gadael deunyddiau oddi fewn i 10m o gyffordd. Dylai'r deunyddiau gael eu lleoli mewn man sy'n osgoi rhwystr diangen heb ymyrryd â defnyddwyr y briffordd ac o leiaf 1.2m o'r llwyr troed er mwyn caniatáu bod cerddwyr yn medru defnyddio'r llwybrau bob amser. Os na fedrir sicrhau hyn, bydd rhaid ffensio rhan o'r ffordd er mwyn sicrhau diogelwch. Dylai'r ffensiau/atalfeydd gael eu cymeradwyo gan Awdurdod y Briffordd a gallant fod yn destun amodau pellach.

3. Yn ystod oriau tywyllwch (rhwng hanner awr ar ôl machlud ac awr cyn codiad yr haul) dylai'r deunyddiau gael eu goleuo gan lampau dynodi perygl ar y ffordd. Darperir goleuadau o'r fath er mwyn diffinio maint y rhwystr ar y ffordd gyhoeddus. Bydd yr anghenion goleuo yn amrywio ar gyfer pob cais a gellir gofyn am argymhellion yr ymgeisydd ar gyfer goleuadau o'r fath gan Awdurdod y Briffordd cyn y bydd trwydded yn cael ei chaniatáu. Y gofyniad sylfaenol yw y dylid gosod lampau ar gorneli'r deunyddiau. Dylai pob lamp a ddefnyddir fod yn sefydlog a'u gosod mewn modd nad sy'n achosi niwsans i gerddwyr a cherbydau.

4. Dylid arwyddo a diogelu'r deunyddiau bob amser yn unol â'r anghenion a nodir ym mhennod 8 y Llawlfyr Arwyddion Ffyrdd neu'r Diogelwch Ar Waith Ffordd a Gwaith Ffordd 'Y Cod Ymarfer.' Gall Awdurdod y Briffordd ofyn am argymhellion arwyddo a diogelu cyn caniatáu trwydded.




5. Ac eithrio'r hyn a ganiateir fel rhan o'r drwydded ni all yr un rhan o'r briffordd gael ei chau heb ganiatâd Awdurdod y Briffordd.

6. Ni all unrhyw ddeunydiau a adewir ar y briffordd gynnwys deunyddiau fflamadwy, ffrwydrol, niweidiol na pheryglus nac unrhyw ddeunyddiau sy'n debygol o bydru na bod yn niwsans ac yn beryglus i ddefnyddwyr y briffordd.

7. Nid yw'r Cyngor Sir fel arfer yn caniatáu ymestyn trwyddedau deunyddiau adeiladu. Byddwn ond yn ystyried estyniad i drwydded gyfredol mewn amgylchiadau lleihaol. Dylai unrhyw gais i ymestyn cyfnod y drwydded gael ei chyflwyno i Awdurdod y Briffordd o leiaf dri diwrnod gwaith (heb gynnwys dyddiau Sadwrn, Sul a Gŵyl y Banc) cyn i'r drwydded ddod i ben.

8. Bydd y sawl sy'n gadael y deunyddiau yn parhau i sicrhau fod ganddynt Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus digonol yn ystod cyfnod y drwydded gan sicrhau fod ganddynt yswiriant digonol i ddiwallu unrhyw risgiau yn unol â'r

caniatâd a gymeradwywyd gan Awdurdod y Briffordd. Dylai'r Terfyn Indemniad ar gyfer y Polisi a gymeradwywyd fod ag isafswm o £5 miliwn.

9. Wedi i'r drwydded ddod i ben, dylai'r briffordd gyhoeddus gael ei gadael yn lân a thaclus a bydd unrhyw ddifrod a achosir i'r briffordd gyhoeddus yn cael eu gwneud gan Awdurdod y Briffordd gyda deiliad y drwydded yn talu amdano.

10. Gall Awdurdod y Briffordd gynnal archwiliadau ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau a nodir. Os bydd rhaid i ni gysylltu â deiliad y drwydded ynghylch unrhyw fater o dor rheol bydd taliad ychwanegol yn cael ei godi.

11. Nid oes unrhywbeth yn y drwydded hon sy'n rhyddhau'r deiliad o'i brif gyfrifoldebau o sicrhau mynediad na sicrhau diogelwch yr offer a berchnogir, defnyddir neu cynhelir gan ymgymerwyr statudol.

**12.** Mewn rhai achosion, gall Awdurdod y Briffordd fynnu bod y deunyddiau'n cael eu symud cyn i'r drwydded ddod i ben.

**Nodiadau Pwysig**

• Ar gyfer dibenion y drwydded hon, mae'r 'Briffordd' yn cynnwys y ffordd, llwybr cerdded, stryd gefn ac unrhyw lain.

• **Nid** yw'r drwydded hon yn caniatáu bod unrhyw forter, concrid na sment yn cael eu cymysgu ar y briffordd neu unrhyw ddeunyddiau eraill allai adael staen neu anffurfio'r briffordd yn barhaol.